**Tasgau adfer ar unwaith ar ôl Covid-19 (cam Ailgychwyn) – cynllun 12 pwynt**

1. Cleientiaid y sector cyhoeddus i bennu rhaglen fuddsoddi glir ar gyfer y tymor byr (6-12 mis) er mwyn ennyn hyder a sbarduno prosiectau seilwaith/adeiladu ar unwaith gan y sector cyhoeddus.
2. Cleientiaid y sector cyhoeddus i hwyluso camau dylunio a chynllunio prosiectau sydd ar y gweill er mwyn sicrhau parhad gwaith i gyflenwyr.
3. Cleientiaid y sector cyhoeddus i helpu contractwyr i ailgychwyn a defnyddio'r mesurau cymorth i gyflenwyr a nodir yn NPC02/20.
4. Cleientiaid y sector cyhoeddus i ymrwymo i ddilyn canllawiau ardystiedig Llywodraeth Cymru ar ymddygiad cyfrifol dan gontract ac ystyried mabwysiadu'r Addewid Osgoi Gwrthdaro.
5. Diwydiant i rannu gwybodaeth am y galw a'r cyflenwad ar gyfer cynnyrch a deunydd ar draws cwmnïau adeiladu, cynhyrchwyr deunyddiau, a chynhyrchwyr a masnachwyr cynnyrch.
6. Diwydiant a Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) i ddatblygu canllawiau penodol I sectorau ar weithdrefnau gweithredu diogel sy'n seiliedig ar arferion da.
7. Diwydiant a CITB i ddarparu hyfforddiant ar roi canllawiau'r coronafeirws ar waith yn y gweithle.
8. CITB i gynhyrchu adnoddau dysgu o bell ar gyfer prentisiaid.
9. Llywodraeth Cymru i annog yr holl Awdurdodau Cynllunio Lleol a'r ymgyngoreion statudol i fabwysiadu dull hyblyg sy'n seiliedig ar fusnes wrth ddelio â cheisiadau cynllunio, er mwyn hwyluso datblygiad.
10. Cleientiaid y sector cyhoeddus i gefnogi contractwyr drwy brosesau talu prydlon/cynnar fel y nodir yn y mesurau cymorth i gyflenwyr yn NPC02/20.
11. Cleientiaid y sector cyhoeddus i ryddhau arian dargadw er mwyn cynyddu'r llif arian ar draws y diwydiant – cefnogir hyn gan NPC02/20.
12. Llywodraeth Cymru i roi datganiad i fusnesau yn nodi y bydd buddsoddiad mewn asedau tai a seilwaith yn y dyfodol yn ddibynnol ar fodloni targedau datgarboneiddio.

**Gallai llawer o'r camau gweithredu tymor byr hyn gael eu hannog drwy gyflwyno datganiad o gefnogaeth penodol gan Weinidogion i'r sector adeiladu,**

**yn ogystal â rhoi cyfarwyddyd i bartneriaid ehangach y sector cyhoeddus a/neu eu hannog i lynu wrth reoliadau a chanllawiau ar arferion da sy'n bodoli eisoes. Byddai datganiad o'r fath hefyd yn rhoi hyder i fusnesau bach a chanolig a microfusnesau yn y sector domestig ac atgyweirio i ailddechrau gweithredu'n ddiogel.**